JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

# Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

# Cynllun Iaith Gymraeg

### Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg - 2024 - 25

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Cefndir | 4 |
| 3. Recriwtio | 5 |
| 4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg | 8 |
| 5. Y Pwyllgor Materion Cymreig | 11 |

## 1. Cyflwyniad

Dyma'r nawfed Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg sydd wedi'i baratoi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran rhoi ein cynllun ar waith ers i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol: https://www.judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme.

Roedd y JAC o fewn cwmpas Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn flaenorol. Bu inni ddatblygu'r cynllun gwirfoddol, arbenigol hwn i bennu'n well sut rydym yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg. Mae'n esbonio sut y gall ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol gyfathrebu â'r JAC yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol nhw.

Mae'r Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu Cyfiawnder yng Nghymru. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymiadau fel bod yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau recriwtio hynny yng Nghymru y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

## 2. Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar 3 Ebrill 2006 o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth ledled y DU. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac rydym wedi ymrwymo i ddenu ymgeiswyr o feysydd mor eang â phosibl. Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag i ymgeiswyr cymwys.

Lansiodd y Comisiwn ei Gynllun Iaith Gymraeg ym mis Mai 2016, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2015. Mae'r cynllun yn esbonio sut y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer penodiad barnwrol yng Nghymru ac yn egluro y bydd ymgeiswyr yn gallu cyfathrebu â ni yn Saesneg neu Gymraeg, yn ôl eu dewis personol.

## 3. Recriwtio

Sefydliad yn Llundain yw'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, gyda tua 100 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb cyflawni parhaol yng Nghymru Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cynnwys recriwtio staff y Comisiwn gan nad oes unrhyw ofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ar gyfer staff.

Lle mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol ar gyfer penodiad barnwrol, rydym ar hyn o bryd yn cael ein cefnogi gan aelodau o farnwriaeth Cymru sy'n eistedd ar baneli dethol i asesu sgiliau Cymraeg. Trwy gydol 2024-25, mae'r JAC wedi parhau i gynnal ymarfer recriwtio agored i gynyddu nifer yr aelodau panel lleyg, ac ymunodd yr aelodau newydd hyn â'r cnewyllyn drwy gydol 2024-25, er na phenodwyd unrhyw aelodau sy'n siarad Cymraeg eleni. Mae ymarferion dethol lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg fel arfer yn destun mesurau sicrhau ansawdd gan Gomisiynydd y JAC sydd â gwybodaeth arbennig am Gymru.

### Gofyniad ar gyfer dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru

Mae maen prawf dethol ychwanegol yn berthnasol i swyddi gwag yng Nghymru. Mae'r maen prawf wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor, a gafodd ei ddiwygio yn ystod 2024-25 ac sydd bellach yn nodi:

"Bydd yn rhaid i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth o sut gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru".

Pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am swyddi yng Nghymru, gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarfer yn ystod y cam cyfweld trwy fformat fideo nad yw'n fyw, gydag ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu dealltwriaeth o faterion sy'n berthnasol i Gymru.

### Ymarferion dethol 2024-25

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr ymarferion sy'n cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn adrodd.[1] Cafodd y cynllun iaith Gymraeg ei roi ar waith ym mis Mai 2016 a chafodd ei gymhwyso ar gyfer ymarferion dethol a aeth i'r camau cynllunio o'r adeg honno ymlaen. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol a gafodd eu cwblhau a'u hadrodd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 er mwyn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio barnwrol yng Nghymru.

Cafodd cyfanswm o 34 o ymarferion dethol eu cwblhau a'u hadrodd yn 2024-25. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn yn asesu'r ymgeiswyr yn erbyn y rhain. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal ymarferion dethol pan fo'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel gofyniad ar gyfer un neu ragor o swyddi.

[1] https://judicialappointments.gov.uk/annual-reports-and-accounts/

**Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol yn ogystal â phrofi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:**

- **Barnwr sy'n Derbyn Ffi - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a Barnwr sy'n Derbyn Ffi - Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cymru a Lloegr) (00117).** Lansiwyd yr ymarfer ar y cyd hwn ar 21 Mawrth 2023. Cafodd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn eu cynnwys yn adroddiad 2023-24. Fodd bynnag, yn dilyn cais pellach, argymhellwyd penodi dau ymgeisydd ychwanegol i ddwy swydd iaith Gymraeg ar gyfer Barnwr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Cyflogaeth (Cymru a Lloegr). Golygai hyn fod cyfanswm o 52 o ymgeiswyr wedi'u hargymell ar gyfer rôl Barnwr sy'n derbyn ffi yn y Tribiwnlys Cyflogaeth (Cymru a Lloegr).

**Canfu'r ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd â gofynion o ran y Gymraeg, ond a oedd yn profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru:**

- **Cofiadur (00162).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Cofiaduron ar 15 Mehefin 2023 gyda 100 swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 100 o ymgeiswyr i'w penodi, ac argymhellwyd fod wyth ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw penderfyniadau ynghylch lleoli.

- **Barnwr Cylchdaith (00171).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 18 Gorffennaf 2023 gyda 52 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 42 o ymgeiswyr, gyda un ymgeisydd wedi'u hargymell fel ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng Nghymru. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw penderfyniadau ynghylch lleoli.

- **Barnwr Rhanbarth (00172).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 7 Medi 2023 gyda 100 o swyddi gwag i'w llenwi ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swyddi yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 51 o ymgeiswyr, gyda thri ymgeisydd wedi'u hargymell fel ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng Nghymru. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw penderfyniadau ynghylch lleoli.

- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (00184).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth ar 19 Mawrth 2024 gyda 125 o swyddi gwag ar unwaith ledled Cymru a Lloegr a chais ychwanegol am 30 o swyddi gwag posibl yn y dyfodol. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 123 o ymgeiswyr i'w penodi, ac argymhellwyd fod pum ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi yng Nghymru, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Bydd ymgeiswyr ychwanegol ar gyfer llenwi'r ddwy swydd sy'n weddill yn cael eu cynnwys

yn y flwyddyn adrodd nesaf. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw penderfyniadau ynghylch lleoli.

- **Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) (00185).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 19 Mawrth 2024 gyda 30 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd cyfanswm o 25 o ymgeiswyr i'w penodi, gyda thri ymgeisydd wedi'u hargymell fel ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng Nghymru. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw penderfyniadau ynghylch lleoli.

- **Barnwr Preswyl y Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Mewnfudo a Lloches (00215).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar gyfer Barnwr Preswyl y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar 26 Medi 2024 gyda phedair swydd wag, ac roedd un ohonynt wedi'i lleoli yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd tri ymgeisydd i'w penodi, gan gynnwys yr un swydd yng Nghymru gydag un ymgeisydd wedi'i argymell fel ymgeisydd addas ar gyfer swydd yng Nghymru.

- **Dirprwy Gadeirydd ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (00221).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 22 Mai 2024 gyda pedwar swydd wag, gyda phob un yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod tri o ymgeiswyr yn addas ar gyfer eu penodi i'r swyddi hyn.

**Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle nad oedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ac nid oedd yn profi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:**

- **Aelodau Cymwys yn Ariannol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, Siambr Hawl Cymdeithasol (00209).** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 9 Gorffennaf 2024 ar gyfer 18 o swyddi gwag ar draws yr holl ranbarthau, gyda dau ohonynt wedi'u lleoli yn rhanbarth De-orllewin Lloegr a Chymru. Argymhellwyd cyfanswm o 10 ymgeisydd i'w penodi, ond ni argymhellwyd unrhyw ymgeiswyr i'w penodi i'r ddwy swydd yn rhanbarth De-orllewin Lloegr a Chymru.

**Mae Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill. Rhoddodd y JAC gymorth i Lywodraeth Cymru gyda'r ymarfer canlynol:**

- **Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg (00193)** – Lansiwyd yr ymarfer ar 13 Mawrth 2024 gydag un swydd wag yng Nghymru. Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer yr un swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu gallu o ran y Gymraeg a'u dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas ar gyfer ei benodi i'r swydd hon.

- **Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (00224).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 16 Mai 2024 gydag un swydd wag yng Nghymru. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar

eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod cyfanswm o un ymgeisydd yn addas ar gyfer ei benodi i'r swydd hon.

- **Aelodau Proffesiynol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru (00226).** Lansiwyd yr ymarfer hwn ar 26 Medi 2024 gyda 10 swydd wag, gyda phob un yng Nghymru. Cafodd y gofyniad i asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru ei hepgor ar gyfer yr ymarfer hwn. Argymhellwyd cyfanswm o dri ymgeisydd i'w penodi i'r swyddi hyn.

## 4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

### Ymarferion dethol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn berthnasol i ymarferion dethol gyda swyddi yng Nghymru a aeth i gamau cynllunio ar neu ar ôl Mai 2016. Dim ond mewn achosion eithriadol y mae'r JAC yn hysbysebu'n  allanol. Roedd adran 'hysbysebu' ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu darpariaethau ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd hysbysebu allanol. Ni ddefnyddiwyd hysbysebu allanol ar gyfer ymarferion dethol a oedd â swyddi yng Nghymru yn ystod 2024-25.

Yn ystod y cyfnod 2024-25, gwnaethom gyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o ddeunydd ymarfer dethol yn yr ymarferion canlynol:

- Aelod Meddygol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, Siambr Hawl Cymdeithasol (00187) a lansiwyd ar 12 Rhagfyr 2023.
- Barnwr Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi (00203) a lansiwyd ar 18 Mehefin 2024.
- Aelodau Cymwys yn Ariannol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, Siambr Hawl Cymdeithasol (00209) a lansiwyd ar 9 Gorffennaf 2024.
- Barnwr Tribiwnlys Haen Gyntaf (00210) a lansiwyd ar 15 Hydref 2024.
- Barnwr Cylchdaith (00212), a lansiwyd ar 10 Medi 2024.
- Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol yng Nghymru (00221) a lansiwyd ar 22 Mai 2024.
- Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru (00224) a lansiwyd ar 16 Mai 2024.
- Aelodau Proffesiynol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru (00226) a lansiwyd ar 26 Medi 2024.
- Cofiadur (00227) a lansiwyd ar 5 Tachwedd 2024
- Aelodau Lleyg Tribiwnlys y Gymraeg sy'n Derbyn Ffi (00249) a lansiwyd ar 26 Tachwedd 2024
- Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yng Nghymru (00254) a lansiwyd ar 28 Ionawr 2025

- Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) (00234) a lansiwyd ar 30 Ionawr 2025
- Dirprwy Lywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru sy’n Derbyn Ffi (00259) a lansiwyd ar 12 Mawrth 2025

Mae gwelliannau i'r wefan dros y flwyddyn yn galluogi tudalennau gwybodaeth Cymraeg a Saesneg i fod yn yr un fformat a sicrhau ei fod yn hawdd ac yn amlwg i newid rhwng yr ieithoedd, yn ôl yr angen. Mae'r ffurflen gais Gymraeg, a ddatblygwyd yn ystod cyfnod adrodd 2023-24, yn parhau i gael ei hymgorffori a'i datblygu ymhellach yn seiliedig ar adborth ymgeiswyr a dderbyniwyd drwy gydol y flwyddyn.

**Cwynion**

Ni chafodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol unrhyw gwynion ffurfiol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Iaith Gymraeg..

**Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu**

Roedd y safonau adrodd a oedd wedi'u sefydlu'n flaenorol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi aros yr un fath ar gyfer 2024-25: argaeledd y Cynllun; cyngor ac arweiniad; gallu digidol; polisïau newydd a diwygiedig; a monitro ac adolygu.

Mae'r diweddariadau i'r cynllun gweithredu yn ystod 2024-25 wedi'u dangos mewn ffont trwm isod.

| Thema a chyfeirnod | Gweithgaredd | Dyddiad Targed | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y Comisiwn | Mawrth 2016 | Cwblhawyd | Cwblhawyd Y cyhoeddiad wedi'i ohirio yn sgil y cyfnod cyn etholiad 2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd ar 23 Mai 2016. |
| Cyngor ac arweiniad | Datblygu canllaw mewnol i gyd-fynd â'r polisi, gan gynnwys asesu sgiliau iaith a gwybodaeth am amrywiaeth o ran y gyfraith, trefniadau datganoli ac ati. | Cyhoeddiad cyntaf ym mis Mawrth 2016.<br><br>Adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol yn dal yn mynd rhagddo | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd | Cwblhawyd – canllaw ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016 ymlaen<br><br>Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn rhoi'r canllaw ar waith.<br><br>Sesiynau hyfforddiant gloywi wedi'u cynnal yn ystod 2020-21 hefyd. Cafodd y canllaw ei adolygu a'i ymestyn gan y Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Hydref 2021. |
| Gallu digidol | Cafodd Platfform Digidol Newydd JAC ei ddatblygu a'i wella trwy gydol 2023-24. | Parhaus | Parhaus | Yn dilyn cyflwyno ffurflenni cais yn y Gymraeg y llynedd. Mae'r gallu digidol wedi cynyddu drwy gydol 2023-24. Mae ymarferion yn gallu lansio gyda fersiynau cyson Cymraeg a Saesneg o dudalen wybodaeth yr ymarfer yn yr un fformat a chyda gallu hawdd ac amlwg i newid rhwng y ddwy iaith. Mae hyn yn cael ei brofi ymhellach drwy gydol 2024-25 gan ystyried adborth ymgeiswyr i fireinio ymhellach. |
| Polisïau newydd a diwygiedig | Ystyried effaith y polisïau newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg. | Parhaus | Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus | Parhaus Bellach mae ymgeiswyr yn gallu cyflwyno unrhyw adran naratif o Brawf Cymhwyso yn Gymraeg, sydd wedyn yn cael ei chyfieithu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Monitro ac Adolygu | Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd a Phwyllgor Gwaith y Comisiwn;<br><br>Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Nawdd y<br><br>Weinyddiaeth Gyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru | Yn flynyddol | | Cwblhawyd:<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-17 – cyhoeddwyd mis Hydref 2017<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18 – cyhoeddwyd mis Tachwedd 2018<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019 – cyhoeddwyd mis Rhagfyr 2019<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-2020 – cyhoeddwyd mis Tachwedd 2020<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 – cyhoeddwyd mis Medi 2021<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22 – cyhoeddwyd mis Medi 2022<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2022-23 – cyhoeddwyd mis Medi 2023<br><br>Adroddiad Monitro Blynyddol 2023-24 – cyhoeddwyd mis Medi 2024.<br><br>**Adroddiad Monitro Blynyddol 2024-25 – cyhoeddwyd mis Medi 2025.** |

## 5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Mae’r Pwyllgor Materion Cymreig yn is-bwyllgor i Fwrdd Comisiwn JAC. Yn y cyfnod hwn o’r Comisiynydd JAC gyda gwybodaeth arbennig am Gymru, y Gwir Y Parch. Dr. Barry Morgan oedd cadeirydd y Pwyllgor, gyda’r Comisiynwyr y Barnwr Tribiwnlys Noel Arnold a Tom Cross CB yn aelodau o’r Pwyllgor. Daeth tymor Brie Stevens-Hoare CB fel Comisiynydd i ben yn 2024, ac felly ymddiswyddodd o'r pwyllgor ar ddiwedd ei thymor.

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol Pwyllgor Materion Cymru ar 9 Mawrth 2017, ac mae’r Pwyllgor yn cwrdd bob yn ail fis.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr, a sicrhau bod y Comisiwn ehangach yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae’r Pwyllgor wedi:

- Ym mis Awst 2024, mynychodd Dr Morgan ddigwyddiad yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, ar wahoddiad Barnwyr Cymru, a siaradodd / traddododd sesiwn ar y broses ymgeisio i’r JAC gyda darpar ymgeiswyr sy’n siarad Cymraeg.

- Ym mis Hydref 2024, mynychodd Dr Morgan Gynhadledd Cymru’r Gyfraith a gwasanaeth i nodi dechrau’r Flwyddyn Gyfreithiol yng Nghadeirlan Llandaf.

- Ym mis Tachwedd 2024, cyfarfu Dr Morgan ac aelodau eraill o’r Pwyllgor Materion Cymreig â Syr Martin Griffiths, Barnwr Llywyddol Cymru, i drafod materion o ddiddordeb cyffredin.

- Ym mis Chwefror 2025, ystyriwyd diweddariad ar gynnydd Bil Tribiwnlysoedd Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyfarfod rhwng swyddogion y Pwyllgor Materion Cymreig a Llywodraeth Cymru.

- Goruchwyliwyd gweithrediad y defnydd o asesiadau fideo nad yw’n fyw ar gyfer asesu gwybodaeth ymgeiswyr am gwestiynau ynghylch gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru.  Mae'r pwyllgor wedi parhau i werthuso'r broses drwy gydol 2024/25.

- Parhau i fonitro datblygiadau Pwyllgor Hyfforddi Cymru i sicrhau bod profion JAC ar wybodaeth Gymreig yn ystyried gwaith y Coleg Barnwrol wrth ymdrin â goblygiadau hyfforddi deddfwriaeth ddatganoledig.

- Wedi monitro cyflwyno ymarferion dethol yng Nghymru